

Ffurflen cydsynio i radiotherapi – bracitherapi ar gyfer canser gynaecolegol



Clinical
Oncology

The Royal College of Radiologists

Dim ond os yw'r claf dros 16 oed a bod ganddo'r galluedd i gydsynio y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Os nad oes gan y claf y galluedd yn gyfreithiol, defnyddiwch ffurflen gydsynio amgen briodol gan eich ysbyty.

Manylion y claf

Enw'r claf:

Dyddiad geni:

Dynodydd unigryw'r claf:

Enw'r ysbyty:

Oncolegydd ymgynghorol neu radiograffydd ymgynghorol cyfrifol:

Gofynion arbennig: e.e. cludiant, cyfieithydd ar y pryd, cymorth

Manylion y driniaeth radiotherapi

Math o radiotherapi:

Radiotherapi mewnol (bracitherapi)

Rhan o'r corff ac ochr:

- Serfics
- Croth
- Cromen y fagina
- Fagina
- Fwlfa

Nod y driniaeth:

(Ticiwch fel y bo'n briodol)

- Gwellhaol – er mwyn rhoi'r cyfle gorau i chi wella
- Cynorthwyol – triniaeth a roddir ar ôl llawdriniaeth i leihau'r risg y bydd y canser yn dychwelyd
- Rheoli clefyd/lliniarol – i wella eich symptomau a/neu'ch helpu i fyw yn hirach ond nid i wella eich canser

Efallai y bydd gennych gwestiynau cyn dechrau eich radiotherapi, neu yn ystod neu ar ôl y driniaeth.

Ceir manylion cyswllt yma os bydd gennych unrhyw ymholiadau pellach neu bryderon, neu os hoffech drafod eich triniaeth ymhellach.






Sgил-ffeithiau cynnar/tymor byr posibl

Yn dechrau yn ystod radiotherapi neu'n fuan ar ôl cwblhau radiotherapi ac, fel arfer, yn diflannu o fewn dau i chwe mis i gwblhau radiotherapi. Mae'r amlerau yn rhai bras.

<p>Disgwyliedig 50%–100%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Blinder <input type="checkbox"/> Poen pelfig ysgafn <input type="checkbox"/> Amllder wrinol (pasio wrin yn amlach na'r arfer) a brys wrinol (awydd sydyn i basio wrin) <input type="checkbox"/> Amllder ysgarthu (ysgarthu'n amlach na'r arfer) brys ysgarthu (awydd sydyn i ysgarthu) <input type="checkbox"/> Y fagina'n cosi, rhedlif neu waedu ysgafn (smotiau gwaed) <input type="checkbox"/> Anesmwythder o ganlyniad i orffwys yn y gwely am gyfnod hir
<p>Cyffredin 10%–50%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Systitis/poen pan fyddwch yn pasio wrin <input type="checkbox"/> Anymataliaeth wrinol – gan gynnwys gollwng wrin wrth besychu neu straenio <input type="checkbox"/> Poen/anesmwythder yn y rhefr
<p>Llai cyffredin Llai na 10%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Carthion mwy rhydd na'r arfer <input type="checkbox"/> Poen cochni a chosi ar y croen <input type="checkbox"/> Twll yn y groth/fagina – a achosir gan y defnydd o offeryn ar adeg y driniaeth <input type="checkbox"/> Gwaedu o'ch pledren neu'ch coluddyn <input type="checkbox"/> Poen pelfig cymedrol
<p>Anghyffredin Llai nag 1%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Gwaedu trwm – a all olygu bod angen triniaeth neu lawdriniaeth bellach <input type="checkbox"/> Haint <input type="checkbox"/> Risg o ddatblygu clot gwaed symptomatig <input type="checkbox"/> Twll yn y coluddyn/pledren – a achosir gan y defnydd o offeryn ar adeg y driniaeth <input type="checkbox"/> Risg o ddatblygu briw pwysu
<p>Gwybodaeth bwysig</p>	<p>Yn anaml iawn, gall cymhlethdodau triniaeth beryglu bywyd ac arwain at farwolaeth. Mae'r risgiau yn wahanol i bob unigolyn. Mae cymhlethdodau a allai beryglu bywyd yn cynnwys y rhai a restrir ar y ffurflen hon ond gall sgил-ffeithiau eraill, sy'n anghyffredin iawn, hefyd beryglu bywyd.</p>
<p>Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth</p>	
<p>Rwy'n cadarnhau bod y sgил-ffeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.</p>	<p>Blaenlythrennau'r claf</p>

Sgil-ffeithiau hwyr neu dymor hir posibl

Gallant ddigwydd fisoedd neu flynyddoedd lawer ar ôl triniaeth radiotherapi a gallant fod yn barhaol. Mae'r amlderau yn rhai bras.

<p>Pendant 100%</p>	<p>Mae hyn yn bwysig. Os yw eich croth a/neu'ch ofarïau yn yr ardal lle rhoddir triniaeth, rhowch wybod i ni am eich cynlluniau ar gyfer cael plant a gallwn roi cyngor i chi yn unol â hynny.</p> <p><input type="checkbox"/> Menopos cynnar – gall y symptomau ddechrau yn ystod radiotherapi neu'n fuan ar ôl ei gwblhau</p> <p><input type="checkbox"/> Anffrwythlondeb – ni fyddwch yn gallu cario baban yn eich croth ar ôl cael radiotherapi, ond rhaid i chi ddefnyddio dull atal cenedlu yn ystod radiotherapi. Ni fyddwch yn gallu cynhyrchu wyau na hormonau.</p>
<p>Disgwyliedig 50%–100%</p> 	<p><input type="checkbox"/> Y fagina'n culhau neu'n byrhau neu fagina sych – gall hyn effeithio ar weithrediad rhywiol ac achosi anesmwythder pan fyddwch yn cael eich archwilio. Efallai y cewch eich cyngori i ddefnyddio ymledyddion fagina ar ôl cael y driniaeth a allai leihau'r risg hon.</p>
<p>Cyffredin 10%–50%</p> 	<p><input type="checkbox"/> Amllder wrinol (pasio wrin yn amlach na'r arfer) a brys wrinol (awydd sydyn i basio wrin)</p> <p><input type="checkbox"/> Anymataliaeth wrinol – gan gynnwys gollwng wrin wrth besychu neu straenio</p> <p><input type="checkbox"/> Amllder ysgarthu (ysgarthu'n amlach na'r arfer) a brys ysgarthu (awydd sydyn i ysgarthu)</p> <p><input type="checkbox"/> Carthion mwy rhydd na'r arfer</p>
<p>Llai cyffredin Llai na 10%</p> 	<p><input type="checkbox"/> Systitis/poen pan fyddwch yn pasio wrin</p> <p><input type="checkbox"/> Poen/anesmwythder yn y rhefr</p> <p><input type="checkbox"/> Gwaedu o'ch pledren, eich coluddyn neu'ch fagina</p> <p><input type="checkbox"/> Niwed i'r coluddyn/pledren y gall fod angen llawdriniaeth i'w drin – a achosir gan gulhad neu ffistwla (cysylltiad annormal rhwng dwy ran o'ch corff). Efallai y bydd angen creu stoma i'w drin</p>
<p>Anghyffredin Llai nag 1%</p> 	<p><input type="checkbox"/> Canser gwahanol lle rhoddir triniaeth</p>
<p>Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth</p>	
<p>Rwy'n cadarnhau bod y sgil-ffeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.</p>	<p>Blaenlythrennau'r claf</p> 

Enw'r claf:

Dynoddydd unigryw'r claf:

Datganiad y gweithiwr iechyd proffesiynol

(i'w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y driniaeth arfaethedig)

- Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i chynnwys, amcanion bwriadedig y driniaeth hon a'i sgil-ffeithiau.
- Rwyf hefyd wedi trafod manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael, gan gynnwys dim triniaeth.
- Rwyf wedi trafod unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf hwn.

Rhodddwyd taflen wybodaeth i gleifion: Do / Naddo – Manylion: _____

Rhodddwyd copi o'r ffurflen gydsynio i'r claf: Do / Naddo

Llofnod:

Dyddiad:

Enw:

Teitl swydd:

Datganiad y claf

- Mae nodau a sgil-ffeithiau posibl y driniaeth wedi'u hesbonio i mi ac rwyf wedi cael cyfle i drafod triniaeth amgen ac rwy'n cytuno i gael y driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon.
 - Rwy'n deall na ellir gwarantu y bydd unrhyw unigolyn penodol yn rhoi'r radiotherapi. Fodd bynnag, bydd yr unigolyn yn meddu ar arbenigedd priodol.
 - Soniwyd wrthyf am driniaethau ychwanegol sy'n angenrheidiol cyn fy nhriniaeth neu a allai fod yn angenrheidiol yn ystod fy nhriniaeth. Gall hyn gynnwys marciau parhaol ar y croen a ffotograffau i helpu i gynllunio a nodi triniaethau.
- Rwy'n cytuno y gall gwybodaeth a gesglir yn ystod fy nhriniaeth, gan gynnwys delweddau a'm cofnodion iechyd, gael eu defnyddio ar gyfer addysg, gwaith archwilio ac ymchwil. Bydd unrhyw wybodaeth a ddefnyddir yn ddiennw. Rwy'n ymwybodol y gallaf dynnu fy nghaniatâd yn ôl unrhyw bryd.

Ticiwch os yw'n berthnasol

- Rwy'n cadarnhau nad oes risg y gallwn fod yn feichiog.
- Rwy'n deall na ddylwn feichiogi yn ystod y driniaeth.

Noder: os oes unrhyw bosibilrwydd eich bod yn feichiog, mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg ysbyty/gweithiwr iechyd proffesiynol cyn cael triniaeth gan y gall hyn arwain at niwed sylweddol i ffetws yn y groth.

- Rwy'n deall petawn yn parhau i ysmegu y gallai gael effaith sylweddol ar y sgil-ffeithiau y byddaf yn eu profi ac effeithiolrwydd fy nhriniaeth.

Llofnod:

Enw'r claf:

Dyddiad:

Defnydd o Anesthesia Cyffredinol/Sbinol a thawelu triniaethol

Rwy'n deall y caf gyfle i drafod manylion anesthesia ag anesthetydd cyn y driniaeth, oni fydd natur frys fy sefyllfa yn atal hyn rhag digwydd. Rwy'n deall mai dim ond os bydd yn angenrheidiol er mwyn achub fy mywyd neu atal niwed difrifol i'm hiechyd y caiff unrhyw driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon ei chyflawni. Soniwyd wrthyf am driniaethau ychwanegol y gallai fod angen eu cyflawni yn ystod fy nhriniaeth. Rwyf wedi rhestru isod unrhyw driniaethau nad wyf yn dymuno iddynt gael eu cyflawni heb drafodaeth bellach.

Llofnod:

Datganiad:

- cyfieithydd ar y pryd
- tyst (lle y bo'n briodol)

- Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth yn y ffurflen hon i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd sydd, yn fy marn i, yn ddealladwy iddo.

neu

- Rwy'n cadarnhau na all y claf lofnodi ond ei fod wedi cydsynio i gael y driniaeth.

Llofnod

Enw:

Dyddiad:

Cadarnhad o gydsyniad y claf

(I'w lofnodi cyn i'r radiotherapi ddechrau)

Rwy'n cadarnhau nad oes gennyf unrhyw gwestiynau pellach ac fy mod am gael y driniaeth.

Blaenlythrennau'r claf:

Dyddiad: